

2012 Rhif 275 (Cy. 45)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Twnnel Conwy, Conwy)
(Cyfyngiadau a Gwaharddiadau
Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012**

Gwnaed 6 Chwefror 2012

Yn dod i rym 19 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu'i wahardd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ac i'r gweithlu o ganlyniad i gynnal ymarferion argyfwng a diogelwch cyfnodol hanfodol.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Chwefror 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r ymarferon sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod yr ymarferion” (“*exercise period*”) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 03:00 o'r gloch ar 19 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 i 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod yr ymarferion, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.20 metr neu'n fwy fynd yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny mewn grym.

9. Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1990(3) drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

10. Mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Glanconwy i Forfa Conwy) 1985(4) drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

11. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011(5) drwy hyn yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr

adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym.

12. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 6 Chwefror 2012

G R Morgan

G MORGAN

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.
- (3) O.S.1990/1586
- (4) O.S.1985/824
- (5) O.S. 2011/2330 (Cy. 245)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwahardd cerbydau

1. Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt ar drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 17, Conwy hyd at bwynt ar drwyn y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Hyd cyfan slipffordd ymuno'r gefnffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 17, Conwy.

3. Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt ar drwyn y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, hyd at bwynt ar drwyn y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 17, Conwy.

4. Hyd cyfan slipffordd ymuno'r gefnffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

ATODLEN 2 Cyfyngiadau ar led cerbydau

1. Y darn hwnnw o gerbyttfordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, hyd at bwynt ar ddiwedd y trwyn lle mae'r slipffordd ymuno

tua'r dwyrain yn ymgyfuno â phrif gerbyttfordd y gefnffordd yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2 Y darn hwnnw o gerbyttfordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt ar ddechrau'r trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymwahanu oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, hyd at bwynt 30 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin.

3. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

ATODLEN 3

Terfyn cyflymder 10 mya dros dro

1. Y darn hwnnw o slipffordd ymadael y gefnffordd tua'r dwyrain yng Nghyffordd 17, Conwy, sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gorllewin o ben y slipffordd hyd at bwynt ar ben y slipffordd lle mae'n ymylu ar Ffordd Bangor, yr A547.

2. Y darn hwnnw o slipffordd ymadael y gefnffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r trwyn ym mhen y slipffordd hyd at bwynt lle mae'r slipffordd ym ymylu ar y gylchfan.

ATODLEN 4

Terfyn cyflymder 30 mya dros dro

Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 787 metr o borth dwyreiniol Twannel Penrhyn Penmaen-bach hyd at bwynt ar y trwyn lle mae'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 17, Conwy, yn ymwahanu oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd, gan gynnwys y slipffordd ymadael hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o ben y slipffordd lle mae'n ymylu ar Ffordd Bangor, yr A547.

ATODLEN 5

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

1. Y darn hwnnw o brif gerbyttfordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o ganolbwynt cylchfan Cyffordd 19, Cyfnewidfa Glanconwy, hyd at bwynt ar y trwyn lle mae'r slipffordd ymadael yng Nghyffordd 18, Cyffordd Llandudno, yn ymwahanu oddi wrth brif gerbyttfordd y gefnffordd.

2. Y darn hwnnw o slipffordd ymadael y gefnffordd tua'r gorllewin yng Nghyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r dwyrain o'r trwyn ym mhen y slipffordd hyd at bwynt lle mae'r slipffordd ym ymylu ar y gylchfan.

3. Hydoedd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin a'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 19, Cyfnewidfa Glanconwy.

4. Y darn hwnnw o brif gerbyffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont Red Gables hyd at bwynt ar y llain ganol, 191 metr i'r gorllewin o borth gorllewinol Twannel Penrhyn Penmaen-bach tua'r dwyrain.